**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Rhagfyr 2013**

## PENODI AELODAU ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Cynnig ailbenodi dau aelod annibynnol i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

## Cyflwyniad

2 Yn ystod 2003, a hynny yn unol â gofynion deddfwriaethol, fe wnaeth yr Awdurdod sefydlu Pwyllgor Safonau. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe aelod, sef pedwar aelod annibynnol a dau sy'n aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub (y Cyng. Brian Dunn a'r Cyng. Jim Evans ar hyn o bryd).

3 Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnmol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

4 Yr aelodau annibynnol sydd â chyfnod eu swydd yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2013 yw Jane A Eyton-Jones a Celia Blomeley. Mae'r ddwy wedi dweud eu bod yn fodlon cael eu hailbenodi.

5 Petai angen hysbysebu unrhyw le gwag, byddai angen cynnull panel cynghori yn cynnwys dim mwy na phum aelod, gydag un ohonynt yn aelod lleyg annibynnol o'r panel. Yna, byddai'r panel cynghori yn ystyried y ceisiadau ac yn gwneud argymhelliad i'r Awdurdod ynglŷn â phwy y dylid ei benodi, fel y gwnaed yn y gorffennol. Er mwyn symleiddio'r broses oherwydd y bylchau rhwng cyfarfodydd llawn o'r Awdurdod Tân, cynigir isod y dylid dirprwyo'r dasg o benodi'r aelod lleyg o'r panel i'r Cadeirydd, y Clerc a'r Prif Swyddog Tân.

**Argymhelliad**

6 Bod Jane A Eyton-Jones a Celia Blomeley yn cael eu hailbenodi yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, a hynny i ddod i rym o fis Ionawr 2014 ymlaen, am gyfnod o bedair blynedd.

7 Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cadeirydd, y Clerc a'r Prif Swyddog Tân i benodi aelod lleyg i'r panel cynghori ar gyfer unrhyw benodiadau i'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol fel y cyfyd yr angen.